Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Abercerdin
# Stryd Kenry
# Evanstown
# Gilfach Goch
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF39 8RS

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol yw Ysgol Gynradd Abercerdin sydd â 198 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 32 disgybl sy'n mynychu'r meithrin amser llawn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Evanstown a Gifach Goch, yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae wyth dosbarth prif ffrwd, ac mae gan chwech ohonynt amrediad oedran cymysg.

Mae tua 27% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd Prydeinig, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol yn Rhagfyr 2008. Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym Medi 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Abercerdin yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,728 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw £4,735 a'r isafswm yw £2,926. Mae Ysgol Gynradd Abercerdin yn safle 11 o'r 49 ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac mae llawer ohonynt yn cyflawni safonau uchel ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2;
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn uniaethu'n dda â phobl eraill ac yn dangos brwdfrydedd i ddysgu;
- mae disgyblion yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb a chymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol;
- mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda ac yn cynnig ystod ddiddorol o brofiadau dysgu;
- mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda;
- mae'r systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr ac effeithiol iawn;
- ceir ethos gofalgar iawn yn yr ysgol, ac mae pob un o'r staff yn darparu cymorth ac arweiniad da ar gyfer disgyblion; ac
- fe geir cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gref, wedi'i chefnogi gan gorff llywodraethol effeithiol;
- mae gan bob un o'r staff rolau addas o ran dwyn yr ysgol ymlaen ac maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm;
- mae'r ysgol yn defnyddio prosesau hunanarfarnu effeithiol i nodi meysydd i'w datblygu, ac mae cynllunio gwelliant yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion;
- mae llawer o welliannau wedi digwydd ym mywyd a gwaith yr ysgol dros gyfnod byr; ac
- mae gan yr ysgol bartneriaethau sefydledig a chryf gyda rhieni a'r gymuned sy'n gwella deilliannau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A2 Gwella presenoldeb

A3 Datblygu gwaith ysgrifenedig disgyblion mewn Cymraeg a defnydd disgyblion o'u medrau Cymraeg fel rhan naturiol o fywyd ysgol

A4 Sicrhau bod addysgu yn darparu her gyson i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sy'n fwy abl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â'u medrau islaw'r cyfartaledd am eu hoedran. Mae disgyblion yn adeiladu ar eu medrau'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus ac yn cymhwyso eu medrau'n effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd.

Mae medrau cyfathrebu disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y meithrin, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad ag oedolion a disgyblion eraill yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau ac yn mynegi eu syniadau'n dda. O bryd i'w gilydd, mae disgyblion hŷn yn llai hyderus wrth annerch grŵp mwy. Nid yw llawer o ddisgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n ofalus ar oedolion, ond wrth iddynt symud trwy'r sector, mae medrau gwrando disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn ymateb yn dda i gwestiynau a chyfarwyddiadau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu eu medrau darllen. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn trafod y mathau o lyfr y maent yn hoffi eu darllen yn frwdfrydig. Defnyddiant ystod eang o strategaethau i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen sy'n fwy abl yn darllen gyda rhuglder, dealltwriaeth a mynegiant. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ddarllenwyr hyderus a brwdfrydig sydd ag agwedd gadarnhaol iawn at ddarllen. Mae ganddynt wybodaeth dda am wahanol fathau o lyfrau. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, mae disgyblion sy'n fwy abl yn dangos medrau darllen da ar lefel uwch, fel brasddarllen a bwrw golwg. Defnyddiant y rhain yn dda i ddod o hyd i wybodaeth benodol mewn testun.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen, fel bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ysgrifennu'n annibynnol a gyda rhuglder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu llawysgrifen, eu sillafu a'u defnydd o atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio ystod dda o eirfa ddiddorol, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiadau o arch arwyr.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn trefnu a chyflwyno ysgrifennu dychmygus a ffeithiol mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, wrth ysgrifennu disgrifiadau o Fomiau Bath, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio disgrifiadau perswadiol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da wrth iddynt ddefnyddio gramadeg, sillafu ac atalnodi. Nid yw rhai disgyblion sy'n fwy abl yn gwneud cynnydd cystal â disgyblion eraill wrth gyflwyno eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn gwneud defnydd da o'u medrau ysgrifennu i gefnogi eu gwaith mewn ystod o feysydd y cwricwlwm, er nad yw disgyblion yn gwneud defnydd digonol o'u medrau i ysgrifennu'n estynedig.

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae bron pob disgybl yn darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau i 100. Mae bron pob disgybl yn nodi haneri a chwarteri yn gywir, a gallant adnabod onglau sgwâr. Mae bron pob disgybl yn defnyddio unedau ansafonol a safonol i fesur hyd, er enghraifft wrth ddefnyddio pren mesur i fesur llinellau mewn centimetrau. Defnyddiant y medrau y maent yn eu dysgu mewn mathemateg i ddatrys problemau yn llwyddiannus.

Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae bron pob disgybl yn cyrraedd y safonau disgwyliedig am eu hoedran. Gwnânt gyfrifiadau gan ddefnyddio adio, lluosi a rhannu, ac maent yn canfod canrannau a ffracsiynau meintiau yn gywir. Mae bron pob disgybl yn defnyddio cwmpawd i dynnu llun cylchoedd ac onglyddion i fesur onglau yn gywir. Mae bron pob disgybl yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ar lefel debyg i'w gwaith mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, tra byddant yn ymchwilio i effaith ymarfer corff ar gyfraddau curiad y galon, defnyddiant ddata yn gywir i lunio a dehongli llinellau graff.

Mae disgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â'r iaith Gymraeg, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu siarad Cymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn canu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau, ac yn ymateb yn briodol i orchmynion sy'n cael eu rhoi yn Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau iaith yn dda ar adegau penodol yn y diwrnod ysgol, er enghraifft yn ystod cofrestru a'r gwasanaeth, ond nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigonol fel rhan naturiol o fywyd ysgol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen amrywiaeth eang o destunau ag ynganiad clir. Mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod o ddibenion ond nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu medrau ysgrifennu.

Mae perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi dangos tuedd o welliant dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2014, cyflawnodd pob disgybl y deilliant 5 disgwyliedig mewn iaith a mathemateg, a chyflawnodd tua hanner ohonynt y deilliant 6 uwch. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae canlyniadau'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer y ddau faes dysgu ar ddeilliant 5 a deilliant 6.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, arhosodd perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig ac yn uwch yn gymharol sefydlog o 2011 i 2013, ond mae wedi codi yn 2014. Mae'r gwelliant mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn fwy na'r gwelliant mewn mathemateg. Mae perfformiad ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae canlyniadau yn 2014 yn debyg i ganlyniadau yn 2011. Yn 2014, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch, ac mewn mathemateg ar y lefel ddisgwyliedig. Mae perfformiad mewn mathemateg ar y lefel uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bechgyn a merched yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw bechgyn yn gyffredinol yn cyflawni cystal â merched ar y lefel uwch. Mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â pherfformiad disgyblion eraill wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond nid ydynt yn cyflawni cystal â nhw o hyd ar y cyfan.

**Lles: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd aros yn iach trwy wneud ymarfer corff yn rheolaidd a bwyta diet iach. Datblygant ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel ac maent yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt bryderon.

Mae gan bron bob disgybl agweddau da at yr ysgol. Maent yn mwynhau dysgu ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn parau a grwpiau. Mae eu hymddygiad mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda ac yn eithriadol o dda ar adegau. Maent yn gyson foesgar a chwrtais. Mae rhan disgyblion yn eu dysgu yn datblygu'n dda trwy helpu i gynllunio testunau. Er enghraifft, mae cyfraniad disgyblion at gynllunio'r testun chwaraeon "Pencampwyr" yn sicrhau eu bod yn frwdfrydig ac yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu.

Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'n helpu i benderfynu ar wisg ysgol newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i gymryd cyfrifoldebau, fel monitoriaid ffrwythau ac arweinwyr digidol. Maent yn datblygu medrau bywyd yn dda wrth wneud cais am y rolau hyn a mynychu cyfweliadau. Dangosant ofal a phryder am ei gilydd ac amgylchedd yr ysgol. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd gyda'r gymuned leol, er enghraifft trwy weithio gyda'r gymdeithas rhandiroedd.

O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o 2010 i 2013. Mae presenoldeb wedi codi'n sylweddol o 91% i 94% dros y flwyddyn ddiwethaf ond yn gosod yr ysgol yn y 50% is o hyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac mae staff yn adolygu cynlluniau i sicrhau eu bod yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion atgyfnerthu eu dysgu trwy weithgareddau annibynnol ac yn caniatáu cyfleoedd da i ddisgyblion ddewis tasgau. Mae'r ystod ddiddorol o brofiadau dysgu a ddarperir gan yr ysgol yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda.

Mae darpariaeth yn cynnwys teithiau wedi'u cynllunio'n ofalus ac ymwelwyr i'r ysgol, sy'n gwella'r cwricwlwm ac yn cymell disgyblion ar ddechrau testunau. Ceir ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu mynychu gan nifer dda o ddisgyblion ac maent yn cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynhwysfawr ac yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol. Nid yw'r cynllunio i ddisgyblion gymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm yr un mor drylwyr.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru a datblygu eu gwybodaeth trwy ymweld â lleoedd yn yr ardal. Ceir darpariaeth dda ar gyfer addysgu'r Gymraeg mewn gwersi, ac mae disgyblion yn dysgu geirfa Gymraeg benodol i gefnogi eu testunau dosbarth ym mhob dosbarth. Mae disgyblion yn ymarfer eu darllen yn Gymraeg mewn amrywiaeth eang o weithgareddau grŵp a dosbarth. Fodd bynnag, mae gwaith ysgrifenedig disgyblion yn dangos ailadrodd ac nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ar gyfer ystod o destunau.

Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd, er enghraifft trwy fonitro'r defnydd o ynni, lleihau gwastraff ac ailgylchu. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a heriau yn y byd ehangach, gan gynnwys y problemau sy'n cael eu hwynebu yn Affrica o ganlyniad i Ebola a phroblemau sy'n cael eu hachosi gan gwympo coed ym Mrasil.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r athrawon berthnasoedd gweithio da gyda disgyblion ac maent yn sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad. Mae bron pob un ohonynt yn sicrhau bod gwersi'n symud yn gyflym a bywiog ac yn darparu tasgau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llawn. Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu yn effeithiol. Mewn gwersi, mae llawer o athrawon yn gofyn cwestiynau heriol i ymestyn dysgu'r disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae pob un o'r staff cymorth yn cefnogi disgyblion yn dda i'w galluogi i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae cynorthwywyr addysgu yn cyfrannu'n effeithiol iawn at gyflwyno sesiynau iaith, gan roi cymorth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Ym mhob dosbarth, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw tasgau'n herio'r disgyblion mwy abl cystal ag y dylent.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o asesiadau i olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr. Mae staff yn defnyddio olrhain cynnydd i osod targedau heriol ar gyfer gwella a sicrhau eu bod yn nodi unrhyw dangyflawni yn gynnar. Mae disgyblion yn aml yn cymryd rhan mewn asesu eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ond nid yw sylwadau bob amser yn helpu disgyblion i wella.

Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth fanwl i rieni am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal a chymorth i ddisgyblion. Ceir trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ymwelwyr, gan gynnwys heddweision, i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i aros yn ddiogel.

Mae staff yn cynllunio ystod briodol o brofiadau dysgu sy'n cefnogi datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion o bob oed yn canu cân "Balchder Abercerdin" ("Abercerdin Pride") yn frwdfrydig ac mae hyn yn atgyfnerthu neges yr ysgol ynghylch parch a balchder yn yr ysgol.

Mae swyddog Cyswllt Teuluol yr ysgol yn effeithiol iawn o ran cyfeirio rhieni a disgyblion at wasanaethau priodol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol i sicrhau bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cael cymorth priodol.

Mae gweithdrefnau da ar waith i nodi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gynnar. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau addas, wedi'u hysgrifennu mewn iaith y mae disgyblion yn ei deall. Ceir gweithdrefnau effeithiol i olrhain y cynnydd a wna'r disgyblion hyn. Mae rhieni a disgyblion yn cymryd rhan mewn adolygu'r targedau hyn gyda staff.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chroesawgar yn yr ysgol sy'n darparu amgylchedd dysgu cefnogol ar gyfer disgyblion. Mae staff yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda. Maent yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i fanteisio ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae adeiladau a thir yr ysgol wedi cael eu hadnewyddu'n helaeth yn y ddwy flynedd ddiwethaf, sydd wedi gwella'r safle yn sylweddol. Mae ystafelloedd dosbarth yn olau, yn cael eu cynnal yn dda ac yn addas ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn cynnig ffocws bywiog ar gyfer dysgu. Mae'r ardal yn yr awyr agored yn cynnwys offer o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl ac ardaloedd sydd ag offer da ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae staff yn defnyddio holl ardaloedd yr adeilad mewn modd creadigol. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau dysgu addas sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref, bwrpasol ac effeithiol. Mae ganddi ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Ers ei phenodi, mae wedi rhoi llawer o newidiadau llwyddiannus ar waith, er enghraifft mewn addysgu darllen. Mae hi wedi sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Ceir gweledigaeth ar y cyd ac ymdrech glir ar gyfer gwella'r ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli yn rhoi cymorth da i'r pennaeth. Caiff effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau trwy ei rolau rheoli, er enghraifft wrth ddatblygu'r Cyfnod

Sylfaen. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer staff yn cynnwys ffocws clir ar wella'r ysgol ac yn rhoi cyfleoedd da i staff rannu arfer dda. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, maent yn gweithio'n dda fel tîm ac mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau cynhwysfawr. Mae cymuned yr ysgol gyfan yn cydweithio i fwrw ymlaen â mentrau newydd sy'n gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn ac yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol wrth gynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae wedi rhoi blaenoriaeth uchel i fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais ar gyflawniad addysgol disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn falch o'r ysgol ac mae wedi ymrwymo i wella. Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan weithredol ym mywyd bob dydd yr ysgol ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, er enghraifft trwy fonitro'r ffordd y caiff mentrau eu rhoi ar waith. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o berfformiad presennol yr ysgol trwy'r dadansoddiad manwl o ddata'r ysgol. Maent yn cynnig her arweinyddiaeth i'r ysgol, er enghraifft o ran ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol gylch hunanarfarnu sefydledig ac effeithiol. Mae uwch arweinwyr yn casglu ystod dda o dystiolaeth i fonitro darpariaeth a safonau. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau rheolaidd ag ystafelloedd dosbarth ac edrych ar waith disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd da o ddadansoddi data i fonitro perfformiad yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio deilliannau monitro i nodi meysydd clir y mae angen i'r ysgol wella ynddynt. Mae'r ysgol yn gofyn am farn rhieni a disgyblion ac yn gweithredu yn unol â'u hawgrymiadau, er enghraifft mewn penderfyniadau am y wisg ysgol newydd. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir, ond mae'n rhy ddisgrifiadol ar y cyfan.

Ceir cysylltiadau clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn nodi'n glir y blaenoriaethau ar gyfer gwella gyda graddfeydd amser priodol, mae'n neilltuo adnoddau ac yn enwi staff cyfrifol. Ceir nifer addas o flaenoriaethau priodol yn y cynllun sy'n cynnwys ffocws clir ar godi safonau.

Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer gwella wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, er enghraifft mewn darllen a rhifedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda rhieni. Mae staff yn hysbysu rhieni'n dda, yn enwedig am y dulliau newydd o addysgu darllen a rhifedd. Mae hyn yn galluogi rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn yn effeithiol. Mae swyddog cyswllt teuluol yr ysgol yn darparu cymorth o ansawdd uchel ar gyfer teuluoedd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfraddau presenoldeb.

Mae arweinwyr yn meithrin cysylltiadau gwaith agos gyda'r gymuned leol. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynorthwyo disgyblion, er enghraifft trwy siarad â disgyblion am eu profiadau adeg rhyfel. Mae staff yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys Gyrfa Cymru, i ddarparu cyfleoedd dysgu ar gyfer y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cael cymorth priodol. Ceir partneriaethau cynhyrchiol gyda'r clwstwr lleol o ysgolion. Mae hyn yn cynnwys staff yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwaith disgyblion yn cael ei asesu'n gywir. Mae'r ysgol yn defnyddio cysylltiadau â darparwyr eraill i rannu ei harfer dda. Mae'r ysgol yn croesawu darparwyr eraill i'r ysgol er mwyn rhannu arfer dda ac arsylwi gwersi.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cyfleuster cyn-ysgol, sef prosiect 'Mums Away'. Mae cydweithio agos rhwng yr ysgol a'r cyfleuster cyn-ysgol yn helpu plant i ymgynefino'n gyflym pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Ceir trefniadau pontio effeithiol gyda'r ysgol uwchradd i sicrhau bod disgyblion yn hyderus i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Caiff disgyblion sy'n agored i niwed gymorth ychwanegol effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i fynychu clwb ar ôl yr ysgol yn yr ysgol uwchradd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff ac mae'n defnyddio eu harbenigedd yn effeithiol i gyfoethogi dysgu a chyflwyno'r cwricwlwm yn briodol. Mae cynnwys cynorthwywyr addysgu mewn cynorthwyo grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol iawn o ran gwella safonau mewn llythrennedd.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn dda, yn enwedig trwy drefn sefydledig o reoli perfformiad. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth, fel codi safonau mewn mathemateg. Mae staff yn gwneud defnydd da o rwydweithiau arfer broffesiynol i gefnogi cyflwyno mentrau newydd.

Mae gan y pennaeth a'r corff llywodraethol systemau priodol i gynllunio a monitro gwariant yn agos. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau am wariant yn cefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae rheolwyr yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer yr ysgol ac maent yn defnyddio'r cyllid hwn yn dda i wella darpariaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion. Mae defnydd yr ysgol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi arwain at bresenoldeb gwell a chymorth da ar gyfer teuluoedd disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a rheoli'r gyllideb yn ofalus.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6722046 - Ysgol Gynradd Abercerdin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 197 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 26.6 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 23 | 22 | 20 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 82.6 | 81.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 22 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.6 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.7 | 40.9 | 55.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 22 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.6 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 13.0 | 13.6 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 22 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 95.7 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.7 | 27.3 | 55.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6722046 - Ysgol Gynradd Abercerdin**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 197 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 26.6 |
| Grŵp PYD | 4 (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 23 | 19 | 21 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 73.9 | 73.7 | 81.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 19 | 21 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.6 | 73.7 | 85.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.4 | 10.5 | 47.6 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 19 | 21 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 78.3 | 78.9 | 81.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.4 | 21.1 | 57.1 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 19 | 21 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.0 | 89.5 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.8 | 26.3 | 47.6 | 56.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

*Holiadur cynradd (cyffredinol)*

*Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 74 | 74<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 74 | 71<br>96%<br>92% | 3<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 74 | 73<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 74 | 74<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 74 | 73<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 74 | 73<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 74 | 74<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 74 | 74<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 74 | 70<br>95%<br>91% | 4<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 74 | 73<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 74 | 68<br>92%<br>77% | 6<br>8%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 74 | 68<br>92%<br>84% | 6<br>8%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 48 | 26 | 17 | 2 | 0 | 3 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 54% | 35% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 48 | 31 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 48 | 33 | 15 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 48 | 27 | 17 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 56% | 35% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 48 | 19 | 22 | 2 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 46% | 4% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 48 | 26 | 20 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 54% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 48 | 28 | 19 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 58% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 47 | 20 | 19 | 3 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 43% | 40% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 48 | 29 | 15 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 48 | 25 | 17 | 1 | 1 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 52% | 35% | 2% | 2% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 48 | 32 | 12 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 25% | 6% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 47 | 24 | 21 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 51% | 45% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 48 | 24 | 20 | 2 | 0 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 48 | 28 | 15 | 3 | 0 | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 58% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 48 | 24 | 16 | 1 | 0 | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 50% | 33% | 2% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 47 | 24 | 15 | 2 | 0 | 6 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 51% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 43 | 17 | 16 | 3 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 40% | 37% | 7% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 48 | 27 | 19 | 2 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 56% | 40% | 4% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 48 | 26 | 17 | 1 | 1 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 54% | 35% | 2% | 2% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jane Linda Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Roger Rees | Arolygydd Tîm |
| Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |
| Matthew Evans | Arolygydd Lleyg |
| Michael Fryer | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Gentle | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.